




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

5 RHESWM PAM MAE PRENTISIAETH YN DDEWIS DOETH I'CH PLENTYN WRTH ADAEL YR YSGOL



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Rhiant i blentyn sy'n gadael yr ysgol? Ydych chi a'ch plentyn wedi ystyried prentisiaethau fel y cam nesaf? Dyma 5 rheswm pam y dylech chi.

1. MAE GALW AM BRENTISIAID



Dych chi'n pryderu am y farchnad swyddi gystadleuol y bydd eich plentyn yn ymuno â hi rywbryd? Mae mwy na chwarter y busnesau'n ystyried bod prentisiaeth yn well nag unrhyw gymhwyster arall, sy'n golygu bod dewis prentisiaeth yn benderfyniad clyfar i bobl ifanc, gan roi cyfle gwych iddynt gamu'n syth i yrfa drwy ennill sgiliau sy'n benodol i swydd a gweithio tuag at gymhwyster sy'n cael ei barchu. Mae cyflogwyr yn recriwtio prentisiaid i greu gweithlu brwdfrydig a sicrhau eu bod yn meithrin talent at y dyfodol.

Un o'r cyflogwyr sy'n meithrin talent fel hyn ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc symud ymlaen yn eu gyrfa yw cwmni cyfrifyddiaeth Clive Atkins. Yn ôl Clive:

"Ers i ni ddechrau cyflogi prentisiaid, rydym wedi sicrhau bod pob un o'n hyfforddeion yn chwarae rhan lawn yn y busnes ar unwaith. Mae ein prentisiaid blaenorol wedi mynd ymlaen i fod yn gyfarwyddwyr ariannol, neu'n bartneriaid mewn cwmnïau cyfrifyddu. 'Dyn ni'n mwynhau cynnig y cyfle i unigolion talentog ennill cymwysterau a gweithio ochr yn ochr gyda'n tîm ni.'"

2. Y FFORMIWLA AR GYFER LLWYDDO



Mae prentisiaethau'n cynnig y cyfuniad perffaith o waith a dysgu, sy'n golygu y gall prentisiaid barhau â'u haddysg, gan ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol tra'n gweithio ochr yn ochr â staff profiadol.

Dyweddodd Laura Green, prentis peirianeg fecanyddol:

"Roeddwn i'n hoffi'r syniad o ddysgu yn y swydd a pheidio â gorfod rhoi'r gorau i ennill cyflog. 'Dyw dysgu academiaidd ddim yn addas i bawb, ond mae gan bobl nad ydynt yn academiaidd sgiliau a thalentau mewn meysydd eraill. Mae fy mhrentisiaeth wir wedi agor drysau i mi, dyma'r peth gorau y gallwn i fod wedi'i wneud.'"

3. Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU GYRFA



Mae prentisiaethau'n agored i bawb dros 16 oed, o bob gallu, ac mae cymorth yn cael ei deilwra'n unigol ar gyfer pob prentis er mwyn iddynt allu bod yn hyderus wrth eu gwaith ac elwa ar yrfa lwyddiannus.

Mae ITV yn un cyflogwr lle mae prentisiaid wedi camu ymlaen i gael eu cyflogi'n llawn-amser. Mae un cyn-brentis bellach yn cyfarwyddo rhaglen newyddion ddyddiol ITV Cymru gyda'r nos.

Mae Safyan Iqbal, prentis byddar, yn rhoi'r clod am ei lwyddiant yn ei yrfa i'w brentisiaeth greadigol:

"Fyddwn i ddim wedi cael cystal cychwyn i fy ngyrfa yn y cyfryngau oni bai am fy mhrentisiaeth.'"

4. Y POSIBILRWYDD O ENNILL MWY O GYFLOG



Dros oes waith bydd gweithiwr sydd â sgiliau penodol i swydd yn ennill £100,000 yn fwy na'r rhai sydd hebddynt. Ar ddechrau eu gyrfa, rhaid i brentisiaid gael eu talu o leiaf yr isafswm cyflog prentis, er bod llawer o gwmnïau yn talu mwy na hyn.

Mae gyrfa Darren Chesworth wedi cael ei thrawsnewid gan brentisiaeth. Ar ôl dechrau ar lawr y ffatri, mae Darren bellach wedi gorffen ei brentisiaeth radd mewn peirianeg electronig, ac mae'n rhan o'r ffordd drwy ei radd Ddoethuriaeth mewn Strategaeth Cynnal a Chadw, gan reoli asedau o hyd at £30,000,000.

Mae Darren yn awyddus i hyrwyddo manteision prentisiaethau i bobl ifanc:

"Dw i wedi gallu cael cymwysterau academiaidd uchel ac ennill profiad ymarferol mewn peirianeg fecanyddol a thrydanol ar yr un pryd. Gallu ennill cyflog tra'n dysgu oedd y llwybr delfrydol i gyflymu hynt fy ngyrfa.

Os gallaf i wneud hynny, gall unrhyw un ei wneud!"

5. CYFOETH O DDEWIS



Ceir 23 o sectorau prentisiaeth, sy'n amrywio o Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg i Dechnoleg Digidol. Maent ar gael ar bedair lefel, sy'n golygu bod yna brentisiaeth addas i bob dysgwr.

1. Prentisiaeth Sylfaen: sy'n gyfwerth â phum TGAU da.

2. Prentisiaeth: sy'n gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch.

3. Prentisiaeth Uwch: sy'n gyfwerth â HNC/ HND neu Radd Sylfaen neu uwch

4. Prentisiaeth Radd: sy'n gyfwerth â gradd baglor lawn. Caiff Prentisiaethau Gradd eu cynnig yn y sectorau TGCh, Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch

Mae Prentisiaethau Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar gael hefyd.

DYSGWCH MWY



I ddysgu mwy am brentisiaethau, ffoniwch **0800 028 4844**.

I chwilio am brentisiaethau gwag, ewch i ams.careerswales.com.

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol



/apprenticeshipscymru



@apprenticewales

**GWNEWCH DDEWIS DOETH.
DEWISWCH BRENTISIAETH.**